## C. Asesiad Effaith Prawfesur Gwledig

Nod trosfwaol y Bil yw atal tomenni nas defnyddir rhag bygwth lles dynol oherwydd eu hansefydlogrwydd. Bydd y Bil yn cyflawni hyn drwy sefydlu cyfundrefn ar gyfer asesu, cofrestru, monitro a rheoli tomenni nas defnyddir, gan gynnwys sefydlu corff cyhoeddus newydd, Awdurdod Tomenni Nas Defnyddir Cymru.

Prif amcan yr Awdurdod, wrth gyflawni ei swyddogaethau fel y darperir ar eu cyfer yn y Bil, yw sicrhau nad yw tomenni nas defnyddir yn bygwth lles dynol oherwydd eu hansefydlogrwydd. Bydd yr Awdurdod yn ymgymryd ag amrywiaeth o weithgareddau, gan gynnwys asesu ac, wedi hynny, categoreiddio tomenni nas defnyddir, swyddogaethau monitro a chreu a chynnal cofrestr electronig o domenni nas defnyddir.

Mae'r Bil hefyd yn rhoi'r gallu i'r Awdurdod ei gwneud yn ofynnol i berchennog tir ymgymryd â gweithrediadau ar dir lle mae'n ystyried bod gweithrediadau o'r fath yn angenrheidiol i atal neu fynd i'r afael â bygythiadau i sefydlogrwydd tomen nas defnyddir, neu i sefydlogi tomen nas defnyddir neu ei hatal rhag troi'n fwy ansefydlog, er mwyn osgoi neu leihau bygythiadau, lle mae'n ystyried bod y fath weithrediadau'n angenrheidiol i gyflawni'r amcan a nodir yn y Bil. Rhaid i'r Awdurdod roi cyngor a chymorth i Weinidogion Cymru mewn perthynas â thomenni nas defnyddir a gall roi gwybodaeth a chyngor i unrhyw berson mewn perthynas â thomenni nas defnyddir.

**Disgrifiwch ac esboniwch effaith y cynnig ar bobl, busnesau a chymunedau gwledig.**

Nod y Bil yw lleihau tebygolrwydd tirlithriadau yn y dyfodol sy'n gysylltiedig â thomenni nas defnyddir. Gall tirlithriadau fygwth diogelwch cymunedau a'r amgylchedd, gyda chostau atgyweirio cysylltiedig sylweddol, er enghraifft difrod i seilwaith. Bydd natur ataliol y Bil yn diogelu cymunedau rhag tirlithriadau o domenni nas defnyddir. Disgwylir i natur ragweithiol y gyfundrefn newydd gael effaith gadarnhaol ar fusnesau a chymunedau (e.e. ffermydd) trwy leihau'r risg o lithriadau tomenni nas defnyddir a'r costau o ganlyniad i dirlithriad.

Mae dosbarthiad tomenni glo nas defnyddir yn tueddu o fod mewn ardaloedd lle mae'r boblogaeth yn uwch (h.y. trefol neu ardaloedd o drefi gwledig) o fewn Meysydd Glo Cymru oherwydd yr anheddiad a'r seilwaith a sefydlwyd yn agos at ardaloedd mwyngloddio. Mae dadansoddiad o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (LSOAs - ardaloedd daearyddol bychain a grëwyd at ddibenion cyflwyno gwybodaeth y cyfrifiad) yn dangos y duedd hon yn glir. Mae gan LSOAs dosbarth 'Trefol' 61% o gyfanswm ardal tomenni glo nas defnyddir categori uwch [1] ac mae 39% o'r ardal mewn LSOAs dosbarth 'Gwledig' yn ôl Dosbarthiad Trefol Gwledig Llywodraeth y DU[2]. O'r LSOAs

---

[1] Mae'r system ddosbarthu bresennol yn rancio tomenni o gategori **D** i gategori **R**. Meini prawf fesul categori: D Potensial i achosi risg i fywyd neu eiddo hanes hysbys o symudiad/arwyddion o ansefydlogrwydd C Potensial i achosi risg i fywyd neu eiddo dim hanes hysbys o symudiad/arwyddion o ansefydlogrwydd B Annhebygol o achosi risg i fywyd / eiddo A Mân domen neu domen wedi'i hadfer R Lleoliad tomen hanesyddol – bellach wedi'i symud neu ei wastatáu ac yn aml bu adeiladu arno.

[2] Diffiniad gwledig / trefol (Cymru a Lloegr) - Swyddfa Ystadegau Gwladol (ons.gov.uk)

‘Gwledig’ hyn mae llai na 10% o domenni glo nas defnyddir categori uwch mewn ardaloedd gwledig gyda dwysedd poblogaeth isel (pentrefi gwledig ac aneddiadau gwasgaredig) gyda’r mwyafrif sy’n weddill o fewn ‘Ardaloedd trefi a chyrion gwledig.’

**Tabl 1** ***Ardaloedd tomenni C a D Gwledig/Trefol***

| **Dosbarth Gwledig/Trefol** | **Ardal Tomenni Glo nas Defnyddir (ha)** | **% Cyfanswm yr Ardal** |
|---|---|---|
| Dinas a thref drefol | 1338.3 | 60.7 |
| Tref a chyrion gwledig | 665.5 | 30.2 |
| Tref a chyrion gwledig mewn lleoliad sydd â phoblogaeth denau | 2.6 | 0.1 |
| Pentref gwledig a gwasgaredig | 200.2 | 9.1 |
| **Cyfanswm** | **2206.5** | **100** |

Mae cyfanswm ardal y tomenni glo nas defnyddir categori uwch (C a D) sy’n bodoli ar dir amaethyddol yn cyfateb i 0.07% o'r holl dir amaethyddol yng Nghymru. O dan y Bil, rhaid i’r Awdurdod greu a chynnal cofrestr electronig o domenni nas defnyddir sy’n peri bygythiad i les dynol oherwydd eu hansefydlogrwydd neu a allai beri bygythiad o’r fath. Mae hyn yn golygu y bydd angen i domenni nas defnyddir (gan gynnwys tomenni glo nas defnyddir) gael eu hasesu, a'u cofrestru a'u monitro lle bo hynny'n briodol. Mae'n bosibl y gallai gweithredoedd o'r fath gael effaith ar bobl, busnesau a chymunedau gwledig, fodd bynnag nid yw pob tomen nas defnyddir yn peri bygythiad i les dynol ac yn yr achosion hyn disgwylir i unrhyw effaith gysylltiedig ar gymunedau gwledig ac ati fod yn fach iawn.

Enghraifft o effaith yw lle gallai fod angen gweithrediadau o dan y gyfundrefn newydd ar domen glo nas defnyddir (e.e. gwaith peirianneg i adeiladu cwlfert). Gallai’r gwaith hwn o bosibl aflonyddu ar amaethyddiaeth (megis tirlunio tirffurfiau, sianeli draenio, creu llwybrau mynediad i beiriannau ac ati). Ni fydd pob tomen nas defnyddir yn cael ei heffeithio gan weithrediadau o’r math hwn, a fydd yn fwy tebygol mewn tomenni sy’n peri mwy o fygythiad i les dynol.

Ar hyn o bryd, nid oes data wedi’u casglu ar gyfran y tomenni nad ydynt yn domenni glo sydd ar dir amaethyddol, ond disgwylir bod nifer sylweddol mewn ardaloedd gwledig (e.e. mae gan Geredigion wledig y crynodiad uchaf o fwyngloddiau metel yng Nghymru), gydag effaith bosibl ar bobl, busnesau a chymunedau gwledig.

<u>Effeithiau ar ardaloedd gwledig.</u>

Bydd yr Awdurdod yn ymgymryd ag amrywiaeth o weithgareddau, gan gynnwys asesu ac, wedi hynny, categoreiddio tomenni nas defnyddir, swyddogaethau monitro a chreu

a chynnal cofrestr electronig o domenni nas defnyddir. Mae’r pwerau yn y Bil yn berthnasol i bob math o dir, felly bydd tir gwledig yn dod o dan ddarpariaethau’r Bil.

Bydd yr Awdurdod yn gallu ei gwneud yn ofynnol i berchennog unrhyw dir ymgymryd â gweithrediadau i atal neu fynd i’r afael â bygythiadau i sefydlogrwydd tomen nas defnyddir, neu sefydlogi tomen nas defnyddir i’w hatal rhag troi’n fwy ansefydlog. Mae hyn yn angenrheidiol er mwyn i'r Awdurdod gyflawni ei swyddogaethau fel y darperir ar eu cyfer yn y Bil.

Bydd gan yr Awdurdod y gallu i ymgymryd â gweithrediadau ar dir os yw’n ystyried ei bod yn angenrheidiol i atal neu fynd i’r afael â bygythiadau i sefydlogrwydd tomen nas defnyddir neu i sefydlogi tomen nas defnyddir rhag troi’n fwy ansefydlog. Disgwylir y bydd y pŵer hwn yn cael ei ddefnyddio mewn amgylchiadau megis pan fydd yr Awdurdod o’r farn nad yw’r perchnogion yn gallu, neu maent yn amharod i ymgymryd â’r gwaith eu hunain neu yn dilyn apêl lwyddiannus yn erbyn hysbysiad.

Mewn argyfwng, mae'r Bil yn rhoi'r pŵer i'r Awdurdod ymgymryd â gweithrediadau heb roi hysbysiad, lle mae’n ystyried bod angen ymgymryd â gweithrediadau ar unwaith. Yn yr amgylchiadau hyn, bydd yr Awdurdod yn gweithredu i osgoi neu leihau bygythiadau i les dynol, bydd yn rhaid iddo weithredu’n gyflym, felly, ni fydd yn ofynnol iddo roi hysbysiad i berchennog y tir cyn ymgymryd â’r gweithrediadau. Fodd bynnag, ar ôl dechrau ar y gwaith, rhaid i’r Awdurdod cyn gynted ag y bo’n ymarferol, roi hysbysiad i berchennog y tir bod y gweithrediadau wedi dechrau gydag amlinelliad o’r rhesymau pam fod angen gwneud y gwaith.

Mae'r Bil yn cynnwys hawliau mynediad i berchennog tir y mae'n ofynnol iddynt, gan yr Awdurdod, ymgymryd â gweithrediadau penodol. Mae hefyd yn darparu y gall person a awdurdodir gan yr Awdurdod fynd ar dir i alluogi’r Awdurdod i gyflawni ei swyddogaethau mewn perthynas ag archwilio, monitro, asesu, gweithrediadau, gwaith canlyniadol, ac ati. Mae hefyd yn cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â digolledu mewn perthynas â sefyllfaoedd gan gynnwys y rhai lle mae tir wedi'i ddifrodi, eiddo wedi’i ddifrodi, ei symud neu ei waredu, neu os oes aflonyddu ar fwynhau tir.

Mae'r Bil yn cynnwys yr hawl i apelio mewn rhai achosion, er enghraifft mewn perthynas â hysbysiad a roddir gan yr Awdurdod sy'n ei gwneud yn ofynnol i berchennog tir ymgymryd â gweithrediadau, neu mewn perthynas â gorchymyn cyfrannu. Yn ogystal, mae'r Bil yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â digolledu lle mae tir wedi'i ddifrodi, eiddo wedi’i ddifrodi, ei symud neu ei waredu, neu os oes aflonyddu ar fwynhau tir. I rai perchnogion tir a pherchnogion tomenni nas defnyddir, mae’n bosibl na fyddant yn gallu fforddio talu’r costau sy’n gysylltiedig â gweithrediadau angenrheidiol. Yn yr amgylchiadau hyn, bydd perchennog tir yn gallu apelio yn erbyn hysbysiad i ymgymryd â gweithrediadau ar y sail nad yw'r perchennog yn gallu talu cost y gweithrediadau sy'n ofynnol gan yr hysbysiad.

**A yw’r cynnig yn berthnasol i BBaCh neu ficrofentrau? Os ydyw, sut ydych wedi cymryd eu sefyllfa i ystyriaeth? A yw’r cynnig yn disgwyl i fusnesau allu cael mynediad at gymorth? (Gall hyn fod ar ffurf cyngor, hyfforddiant, cyllid ac ati) Os ydyw, pa rwystrau fydd busnesau gwledig yn eu hwynebu a sut byddant yn cael eu goresgyn?**

**Mae’r darpariaethau yn y Bil yn cyfeirio at berchennog tir, byddai hyn yn cynnwys mentrau bach a chanolig neu ficrofentr os ydynt yn berchnogion/rhannol berchnogion tir neu mae ganddynt ystad neu fuddiant mewn tir. Er enghraifft,**

**mae gan yr Awdurdod y pŵer i roi hysbysiad i berchennog unrhyw dir sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt ymgymryd â gweithrediadau i atal neu fynd i'r afael â bygythiadau i sefydlogrwydd tomen nas defnyddir, neu i sefydlogi tomen nas defnyddir neu atal tomen rhag troi'n fwy ansefydlog, er mwyn osgoi neu leihau bygythiadau i les dynol. Cyn cyhoeddi hysbysiad, byddem yn disgwyl i'r Awdurdod drafod gyda pherchnogion tir yr angen am y gweithrediadau a'r hyn y disgwylir iddynt ei gyflawni. Bydd yr Awdurdod hefyd yn darparu swyddogaeth gynghori i annog pobl, er enghraifft, perchnogion tomenni nas defnyddir i gyflawni eu cyfrifoldebau neu i helpu gyda materion sy'n codi mewn perthynas â thomen nas defnyddir.**

**Pa gyswllt yr ydych wedi'i gael gyda rhanddeiliaid gwledig? Disgrifiwch yn gryno unrhyw ddigwyddiadau a dargedwyd at randdeiliaid gwledig neu unrhyw ymgysylltu ymgynghori a gawsoch gyda rhanddeiliaid gwledig. A gododd unrhyw faterion eraill o ganlyniad i'r ymgysylltu â rhanddeiliaid neu unrhyw ymgynghori ynghylch y cynnig hwn? Os do, beth oeddent a sut ydych wedi addasu eich cynnig i'w hystyried?**

Mewn ymateb i dirlithriad Tylorstown, sefydlodd Llywodraeth Cymru Dasglu Diogelwch Tomenni Glo i gyflwyno rhaglen o waith i fynd i'r afael â diogelwch tomenni glo yng Nghymru. Mae adolygiad annibynnol Comisiwn y Gyfraith o ddeddfwriaeth diogelwch tomenni glo yn ategu'r gwaith hwn. Cynhaliodd Comisiwn y Gyfraith ymgynghoriad rhwng 9 Mehefin 2021 a 10 Medi 2021, cyflwynodd yr ymgynghoriad nifer o gynigion dros dro am gyfundrefn reoleiddio newydd a llywiodd dadansoddiad o'r ymgynghoriad adroddiad Comisiwn y Gyfraith "Rheoleiddio Diogelwch Tomenni Glo yng Nghymru", a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2022.

Cyhoeddwyd ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad Comisiwn y Gyfraith ar 22 Mawrth 2023 ac ystyriwyd ei ganfyddiadau ym Mhapur Gwyn Diogelwch Tomenni Glo (Cymru), a gyhoeddwyd ym mis Mai 2022. Roedd y Papur Gwyn hefyd yn cynnwys dadansoddi pellach a wnaed gan Lywodraeth Cymru ar feysydd nad oedd wedi cael sylw yn adroddiad y Comisiwn neu a oedd angen ymchwil pellach. Gwahoddwyd rhanddeiliaid i gyflwyno eu barn ar y Papur Gwyn yn ystod ymgynghoriad 12 wythnos. Cafodd y dadansoddi o'r ymatebion i'r ymgynghoriad eu hystyried wrth ddatblygu'r Bil ymhellach.

Cyflwynwyd cynigion y Papur Gwyn Diogelwch Tomenni Glo yn uniongyrchol i gynrychiolwyr allweddol y gymuned wledig yn Fforwm Rhanddeiliaid Taliadau Gwledig Cymru ar 13 Gorffennaf 2022.

Rhwng mis Mai a mis Gorffennaf 2022, cynhaliodd Llywodraeth Cymru bedwar cyfarfod Gweithgor Technegol, a fynychwyd gan swyddogion awdurdodau lleol o wahanol ardaloedd yng Nghymru, (e.e. Sir Benfro a Sir Fynwy), a roddodd gyfle iddynt drafod conglfeini'r gyfundrefn newydd. Hefyd, cyflwynodd Llywodraeth Cymru gyfres o weithdai i gynulleidfaoedd arbenigol, er enghraifft Sefydliad y Peirianwyr Sifil, Grŵp Cymru Cymdeithas Cyfraith Amgylcheddol y DU, Llwyfan Amgylcheddol Cymru (ac amryw weithdai ar gyfer awdurdodau lleol).

Codwyd pryderon ynghylch amseru archwiliadau a mynediad gan sefydliadau gwledig (e.e. CLA Cymru ac NFU Cymru) ac unigolion o ardaloedd gwledig, a ymatebodd i'r ymgynghoriad. Gan ystyried eu hadborth, y bwriad yw y bydd canllawiau a lunir gan Weinidogion Cymru i'r Awdurdod ar archwiliadau yn cynghori ar amseru archwiliadau, asesu a monitro ar dir gwledig a ddefnyddir ar gyfer pori a gweithgareddau ffermio eraill,

ac y byddai gwaith cyffredinol yn cymryd i ystyriaeth gweithgareddau penodol sy'n digwydd yn dymhorol, megis wyna yn y gwanwyn.

Yn dilyn cyhoeddi lleoliadau'r tomenni glo nas defnyddir categori C a D yng Nghymru ym mis Tachwedd 2023, cyflogwyd cwmni marchnata, Cazbah, gan Lywodraeth Cymru i drefnu cyfres o ddigwyddiadau ymgysylltu ac i gynnal ymgyrch hysbysebu Facebook i godi ymwybyddiaeth o'r digwyddiadau hyn.

Yn 2023, lansiwyd yr ymgyrch ar 15 Tachwedd a daeth i ben ar 9 Rhagfyr, gyda'r canolbwynt daearyddol yn symud wrth i'r digwyddiadau fynd rhagddo. Cafodd ei gynnwys ar Facebook, Instagram a Messenger, gan dargedu pobl dros 18 oed yn ôl ardal awdurdod lleol a oedd yn cynnwys Blaenau Gwent, Caerffili, Castell-nedd Port Talbot, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf a Thorfaen. Arweiniodd yr ymgyrch at 6404 clic ar ddolen wefan www.llyw.cymru/dod-o-hyd-i-domenni-glo-segur. Roedd y rhan fwyaf o'r ymgysylltu gan grwpiau oedran hŷn, gyda 54% o'r ymatebion gan y rhai yn y grŵp oedran 55+.  Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i fonitro'r effeithiau drwy ei chyfathrebu a'i hymgysylltu â'r holl randdeiliaid drwy gydol hynt y Bil.

Roedd y digwyddiadau ar agor i'r cyhoedd ymgofrestru. Cynhaliwyd y sesiynau ar-lein ac wyneb yn wyneb i sicrhau bod mynediad ar gael i gynulleidfa mor eang â phosibl. Trefnwyd y digwyddiadau ar-lein ar wahanol amseroedd yn ystod y dydd i ganiatáu am wahanol batrymau gweithio a chynhaliwyd y digwyddiadau wyneb yn wyneb yn yr ardaloedd awdurdod lleol yr effeithir arnynt fwyaf gan safleoedd y tomenni glo nas defnyddir. Y rhain oedd Torfaen, Caerffili, Rhondda Cwm Taf, Castell-nedd Port Talbot a Merthyr Tudful.

Archebodd **56** o bobl le i fynychu sesiwn drwy'r broses gofrestru.

**Tabl 1 - niferoedd fesul Awdurdod Lleol**

| **Niferoedd fesul Awdurdod Lleol** | |
|---|---|
| Blaenau Gwent | 18 |
| Caerffili | 6 |
| Caerdydd | 3 |
| Abertawe | 2 |
| Merthyr Tudful | 5 |
| Castell-nedd Port Talbot | 3 |
| Rhondda Cwm Taf | 14 |
| Torfaen | 1 |
| Amh. | 4 |

**Tabl 2 – Niferoedd fesul sesiwn**

| **Niferoedd fesul sesiwn:** | |
|---|---|
| Sesiynau ar-lein | 43 |
| Castell-nedd Port Talbot | 2 |
| Merthyr Tudful | 3 |
| Caerffili | 5 |
| Pontypridd | 1 |
| Pont-y-pŵl | 2 |
| | |
| | |
| | |

**Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd gennych i lywio eich asesiad, gan gynnwys tystiolaeth gan bobl wledig neu eu cynrychiolwyr?**

**Yn 2022, darparodd argymhellion Comisiwn y Gyfraith dystiolaeth werthfawr am gyfundrefn reoli newydd ar gyfer tomenni glo nas defnyddir.  Mae'r Bil yn adlewyrchu nifer o'i argymhellion, megis sefydlu corff arbenigol a chofrestr**

**asedau genedlaethol[3], a gafodd eu cynnwys ym Mhapur Gwyn Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar sefydlu Awdurdod Goruchwylio newydd a chreu cofrestr ddwyieithog electronig.**

**Cafwyd cyfanswm o 44 ymateb i'r Papur Gwyn gan amrywiaeth o randdeiliaid unigol, cwmnïau, sefydliadau ac awdurdodau lleol. Roedd yr ymatebion yn adlewyrchu amrywiaeth o safbwyntiau a barnau, ond yn gyffredinol roeddent yn gefnogol o'r cynigion am ddeddfwriaeth, ac yn benodol roedd cefnogaeth sylweddol o blaid sefydlu corff arbenigol a datblygu cofrestr asedau genedlaethol. Croesawodd yr ymatebwyr hefyd ddyluniad y gyfundrefn reoli newydd sy'n cynnwys pedair prif elfen: asesu, cofrestru, categoreiddio a chynnal a chadw tomenni nas defnyddir.**

Dywedodd sefydliadau gwledig (e.e. CLA Cymru ac NFU Cymru) yn eu hymateb i'r ymgynghoriad fod ganddynt bryder ynghylch categoreiddio tomenni, amseru archwiliadau a'r effaith y gallai gwaith adfer ei chael ar rai perchnogion ar adegau penodol o'r flwyddyn (e.e. wyna a chynaeafu). Fe wnaethant holi hefyd am lefel y cyfraniad ariannol tuag at unrhyw waith cynnal a chadw a fyddai'n ofynnol i berchennog ei wneud.

**Er mwyn ystyried ymhellach tomenni glo nas defnyddir mewn cymunedau gwledig, rydym hefyd wedi tynnu ar waith casglu data a wnaed gan yr Awdurdod Glo gyda chymorth awdurdodau lleol. Mae hyn wedi helpu i nodi agosrwydd tomenni glo nas defnyddir at gymunedau, seilwaith allweddol, a'r amgylchedd.**

**Pa dystiolaeth arall fyddai'n llywio'r asesiad?**

Mae gan yr Awdurdod Glo raglen barhaus o archwiliadau gaeaf a haf o domenni glo nas defnyddir categori C a D. Archwilir tomenni glo nas defnyddir categori D ddwywaith y flwyddyn a thomenni glo nas defnyddir categori C unwaith y flwyddyn. Mae archwiliadau o domenni glo nas defnyddir yn helpu i nodi gwaith cynnal a chadw sydd ei angen ar domenni nas defnyddir ac mae Llywodraeth Cymru wedi sicrhau bod cyllid ar gael rhwng 2022 a 2025 i alluogi awdurdodau lleol i ymgymryd â gwaith cynnal a chadw ac adfer ar domenni glo nas defnyddir.

**<u>Asesiad Effaith Rheoli Tir yn Gynaliadwy (RhTG)</u>**

Ni wnaed Asesiad Rheoli Tir yn Gynaliadwy gan nad yw'r amodau sy'n gofyn am gwblhau'r Asesiad wedi'u bodloni. Fodd bynnag, rydym wedi ystyried yr asesiad RhTG ac wedi penderfynu, pan fyddwn yn cyflwyno is-ddeddfwriaeth o dan bwerau yn y Bil, y byddwn yn ystyried y ddyletswydd RhTG yn erbyn y swyddogaethau hyn, ac a yw'r amodau wedi'u bodloni i gynnal asesiad bryd hynny.

[3] Mae'r Bil yn gosod dyletswydd ar yr awdurdod i greu cofrestr electronig o domenni nas defnyddir yng Nghymru sy'n peri bygythiad i les dynol oherwydd eu hansefydlogrwydd neu a allai beri bygythiad pe baent yn troi'n ansefydlog.